



realising  
ambition

## Datgymalu'r hierarchaeth

Natur ailadroddol gwella gwasanaeth  
a chynhyrchu tystiolaeth

Gwireddu Uchelgais  
Cipolygon Rhaglen: Rhifyn 3



**Ynglŷn â'r gyfres hon:** Mae'r gyfres hon o Gipolygon Rhaglen yn rhannu myfyrdodau, dysg a goblygiadau ymarferol oddi wrth Gwireddu Uchelgais: rhaglen £25m gan Y Gronfa Loteri Fawr sy'n cefnogi'r broses o ail-greu gwasanaethau addawol a seiliedig ar dystiolaeth a gynllunir i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn hytrach nag ysgrifennu adroddiad gwerthuso maith ar ddiwedd y rhaglen bum mlynedd - a fyddai'n cael ei ddarllen gan ychydig o bobl yn unig yn ôl pob tebyg - yn lle hynny rydym yn cynhyrchu cyfres o Gipolygon Rhaglen fel bod pobl yn gallu cael gwybodaeth ynghylch y rhaglen tra'i bod yn digwydd mewn darnau byr.

Mae rhai rhifynnau, fel yr un hwn, yn **Ddarnau Canfyddiadau** sy'n disgrifio data a dysg rhagarweiniol o weithgareddau gwerthuso a wnaed gan Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington, a'n myfyrdodau ar oblygiadau'r rhain. Bydd rhai eraill yn **Ddarnau Ffocws**, fel y ddau rifyn cyntaf, sy'n cyflwyno syniadau a chysyniadau a ddaw i'r amlwg o'r rhaglen. Y math olaf fydd **Canllawiau Maes**: canllawiau 'sut mae' ymarferol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Trwy rannu syniadau, llwyddiannau, heriau a hyd yn oed rhai camgymeriadau, rydym yn gobeithio cefnogi ac ysbrydoli pobl eraill sy'n ystyried, ymgymryd â neu gomisiynu eu taith atgynhyrchu eu hunain.

Trwy gydol pob rhifyn bydd ambell air yn ymddangos mewn **glas**. Ar gyfer y rhai hyn cewch ddiffiniadau yn y blwch Rhestr Termau ar ddiwedd y darn hwn. Yno hefyd cewch ddeunydd darllen allweddol rydym wedi tynnu arno wrth ddatblygu'r rhifyn hwn.

**Ynglŷn â ni:** Mae'r rhaglen Gwireddu Uchelgais yn cefnogi ac yn cael ei phweru gan 22 sefydliad – mawr a bach – yn atgynhyrchu 25 gwasanaeth gwahanol ledled y DU. Rheolir y rhaglen gan gonsortïwm o bedwar sefydliad sydd wedi'u hymrwymo i wella canlyniadau ar gyfer plant. Fe'i arweinir gan Catch22, gydag Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington, Substance a Sefydliad Young. Ysgrifennwyd y rhifyn hwn gan Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington (DSRU), â chyfraniadau gan bob partner yn y consortïwm.



## Rhaglen Gwireddu Uchelgais Cipolygon: Rhifyn 3

### Ynglŷn â'r Cipolwg Rhaglen hwn

Yn y rhifyn hwn o'r gyfres Cipolygon Rhaglen rydym yn archwilio i ba raddau mae'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgais wedi coethi eu gwasanaethau ac wedi cryfhau eu cronfa dystiolaeth dros hynt y fenter. Dyma un o'r prif gwestiynau gwerthuso a gyflwynir gan Y Gronfa Loteri Fawr. Rydym yn ystyried y sefyllfa tri chwarter o'r ffordd trwy Wireddu Uchelgais, a byddwn yn diweddarau'r canfyddiadau wrth i'r rhaglen ddod i ben yn 2017.

Yn Rhan 1 rydym yn disgrifio'r Safonau Tystiolaeth, sy'n offeryn ar gyfer asesu pa mor dyn y diffinir a pha mor barod i'w hail-greu ar lefel ehangach mae gwasanaethau neilltuol a chryfder y dystiolaeth sy'n eu cefnogi. Rydym yn archwilio'r cryfderau a chyfyngiadau sydd ynghlwm wrth weithredu'r Safonau hyn, yn arbennig yng nghyd-destun ail-greu. Yna rydym yn cyflwyno ymagwedd amgen seml ar gyfer ystyried tystiolaeth yng nghyd-destun ail-greu a gwella gwasanaeth.


Yn Rhan 2 rydym yn cyflwyno canfyddiadau rhagarweiniol yngylch faint mae'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgais, ar y cyfan, wedi gwella yn ôl nifer o ddangosyddion o goethi gwasanaeth a chryfder tystiolaethol. Rydym yn ystyried beth allwn a beth na allwn ei gasglu o'r canfyddiadau hyn.

Yn Rhan 3 rydym yn chwilio o dan y canfyddiadau hyn er mwyn ystyried y buddsoddiad sy'n ofynnol i goethi gwasanaeth ac i gynhyrchu tystiolaeth; yr amrywio a geir o ran ansawdd offer a thystiolaeth; natur ailadroddol a pharhaol coethi yng nghyd-destun ail-greu; a sut mae'r daith goethi'n bwysicach na'r cyrchfan.

### Rhan 1: Cynyddu'r Safonau Tystiolaeth

Yn y rhifyn cyntaf o'r gyfres Cipolygon Rhaglen hon fe wnaethom roi diffiniad eang o ail-greu **llwyddiannus** fel gwasanaeth a ddiffinir yn dyn a gyflenwir gan sefydliad cryf sy'n defnyddio **tystiolaeth** i ddysgu ac addasu, fel bo angen. Yn ychwanegol i sefydliad cryf sy'n cyflenwi gwasanaeth cryf, mae dealltwriaeth dda o'r cyd-destun i ble mae gwasanaeth yn cael ei ail-greu'n bwysig (gweler Ffigur 1).

Ffigur 1: Elfennau ail-greu llwyddiannus



Yn yr ail rifyn fe wnaethom ddisgrifio sut mae ail-greu'n galw am ymagwedd hyblyg, ailadroddol at gynhyrchu tystiolaeth er mwyn addasu, profi a choethi.


Yn y Darn Canfyddiadau hwn byddwn yn canolbwyntio ar gylch uchaf ffigur 1, gwasanaeth a ddiffinir yn dyn, a'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â hyn. Rydym yn ystyried bod hwn yn gwbl anhepgor o ran ail-greu'n llwyddiannus gan fod **gwasanaeth a ddiffinir yn dyn** yn un sy'n fwy tebygol o fod yn effeithiol ynghylch gwella **canlyniadau** buddiolwyr a hefyd mae'n un sy'n fwy tebygol o gael ei ail-greu'n gyson mewn lleoedd newydd.

Ar gychwyn y rhaglen Gwireddu Uchelgais, fe wnaethom ddefnyddio Safonau Tystiolaeth Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington (DSRU) i **asesu**

- pa mor dyn y diffinir pob un o'r 25 gwasanaeth. Mae'r Safonau hyn yn cynnwys meini prawf i asesu:
- (a) i ba raddau gellir disgrifio'r gwasanaeth fel un sy'n rhesymegol a chydlynol;
  - (b) ansawdd y dystiolaeth a'r gwerthuso sy'n cefnogi'r gwasanaeth;
  - (c) asesiad o **effaith** ar ganlyniadau; ac
  - (d) i ba raddau mae'r gwasanaeth yn barod i'w ail-greu ar lefel ehangach.

Ers hynny mae nifer o sefydliadau wedi defnyddio'r Safonau hyn, yn aml trwy fabwysiadu'r strwythur a ddatblygwyd yn wreiddiol gan DSRU ar ran Awdurdod Llundain Fwyaf a Phrosiect Oracle. Fel a ddangosir yn Ffigur 2 (addasiad NESTA o'r Safonau hyn), mae'r strwythur hwn yn cynnwys pum lefel hierarchaidd.

*Ffigur 2: Addasiad NESTA o'r Safonau Tystiolaeth*



## Cryfderau a chyfyngiadau

Cryfder y cymhwysiad hwn o'r **Safonau Tystiolaeth** yw ei fod yn creu ffocws positif ar **ganlyniadau** ac **effaith**. Mae'n canolbwyntio nid yn unig ar dystiolaeth a dulliau gwerthuso o ansawdd uchel ond hefyd ar agweddau ehangach ar goethi gwasanaeth a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion.

Mae tabl 1 yn dangos faint o'r 25 o brosiectau Gwireddu Uchelgais oedd ar Lefelau 1, 2 neu 3 neu'n uwch yn eu tro cyn dechrau'r rhaglen o gymharu â nawr (tri chwarter o'r ffordd drwy'r buddsoddiad pum mlynedd). Gweler y blwch ar y dudalen ddilynol am drosolwg o'r dulliau a fffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i wneud y barnau hyn (yn ogystal â'r dulliau'n hysbysu data a ddisgrifir yn Rhan 2).

Tabl 1: Cynnydd i fyny lefelau'r Safonau Tystiolaeth

	Dechrau'r Nawr	Rhaglen (3.5 blynedd yn ddiweddarach)
Lefel 1	10	1
Lefel 2	4	10
Lefel 3+	11	14*

\*O'r rhain, mae tri phrosiect ar hyn o bryd yn mynd trwy **broses arbrofol o werthuso** ond nid yw'r canlyniadau ar gael eto.

Erbyn hyn mae mwyafrif o'r prosiectau hynny a oedd ar Lefel 1 un wreiddiol ar Lefel 2, a mae ychydig a oedd ar Lefel 2 erbyn hyn yn mynd trwy werthusiad arbrofol er mwyn cyrraedd Lefel 3. Mae hyn yn dangos proses bositif a phendant o goethi gwasanaethau dros hynt y rhaglen Gwireddu Uchelgais. Rydym o'r farn bod y gefnogaeth ac arweiniad a ddarparwyd i bob un o'r 25 prosiect gan aelodau'r consortiwm dros dair blynedd cyntaf y rhaglen wedi cyfrannu i'r cynnydd hwn, yn ogystal â buddsoddiad Y Gronfa Loteri Fawr mewn gwerthusiad arbrofol o dri o'r prosiectau.

Fodd bynnag, mae partneriaid y consortiwm wedi nodi nifer o gyfyngiadau ar y cymhwysiad hwn o'r Safonau Tystiolaeth, o leiaf mewn rhaglen fuddsoddi sy'n canolbwyntio ar ail-greu. Yn gyntaf, mae llawer o brosiectau, gan gynnwys rhai o'r rhai hynny ar Lefel 1, sydd ag elfennau Lefel 5 yn eu lle - llawlyfrau, systemau a gweithdrefnau i sicrhau ail-greu cyson. Ond gan nad ydynt wedi mynd trwy

werthusiad arbrofol maent yn 'sownd' ar Lefel 1 neu 2. Yn ail, mae cryn dipyn o amrywio o fewn pob un o'r pum lefel o'r Safonau nad ydynt yn eu cipio'n briodol. Er enghraifft, gall y cydlynid a'r dystiolaeth sy'n sylfaenol i ba mor dyn y diffinir gwasanaeth ar Lefel 1 – a ddangosir gan ansawdd model rhesymeg neu ddamcaniaeth newid - amrywio'n fawr iawn. Mae'r un peth yn gymwys ar gyfer ansawdd y dystiolaeth o newid mewn canlyniadau ar Lefelau 2, 3 a 4. Caiff y themâu hyn eu harchwilio ymhellach yn Rhan 3.

## Ymagwedd wahanol at dystiolaeth.

Mae'r cyfyngiadau hyn wedi ein harwain at archwilio'r gwerth o symud i ffwrdd oddi wrth gymhwysiad hierarchaidd syml o'r Safonau Tystiolaeth (symud i fyny lefelau) o blaid ymagwedd sy'n newid pwyslais yn fwy. Gwelir hyn yn ein gwaith i ddatblygu'r Fframwaith Tystiolaeth-Hyder - a gyflwynwyd yn ail rifyn y gyfres Cipolygon Rhaglen hon Mae'r fframwaith hwn yn darparu trosolwg o nifer o agweddau gwasanaeth a sefydliadol ar ail-greu gan gynnwys, er enghraifft, a yw'r gwasanaeth yn gwasanaethu'r rhai hynny y cynlluniwyd y gwasanaeth ar eu cyfer ac a oes gan y sefydliad sy'n cyflenwi achos busnes cymhellol i gefnogi cynaliadwyedd. Pan yw'n cael ei ddefnyddio fel offeryn hunan-asesu mae'n helpu sefydliadau i nodi meysydd cryfder a datblygiad posibl. Ni fydd y meysydd hyn o ddatblygiad posibl o reidrwydd yn dilyn trefn sefydlog na llwybr unionlin, ond gallant gynnwys ailymweld â sylfeini tystiolaethol cynharach a'u cryfhau. Darperir trosolwg dangosol a chymhwysiad o'r Fframwaith Tystiolaeth-Hyder i brosiect damcaniaethol yn Ffigur 3. Darperir manylion pellach ynghylch y Fframwaith Tystiolaeth-Hyder yn ail rifyn y gyfres gipolygon rhaglen hon.

Oherwydd hynny, yn y darn Canfyddiadau hwn, yn hytrach nag adrodd ymhellach ar ymyriadau'n symud i fyny lefelau'r Safonau Tystiolaeth, yn lle rydym yn bwriadu adrodd yn ôl nifer o ddangosyddion penodol pwysig o wasanaeth a ddiffinir yn dyn o fewn y Fframwaith Tystiolaeth-Hyder

Ffigur 3: Cymhwysiad enghreifftiol o Fframwaith Tystiolaeth-Hyder Gwireddu Uchelgais

<b>Gwasanaeth a ddiffinir yn dyn</b>	Wedi'i gefnogi gan fodel rhesymeg cryf	Diffinir "craidd" y gwasanaeth yn dda	Mae gweithgareddau a bennir yn glir	Cefnogir y cyflenwi gan lawlyfrau a hyfforddiant
<b>A gyflenwir yn effeithiol i'r rhai hynny sydd ei angen</b>	Gwasanaethir unigolion cymwys mewn angen	Gellir diwallu targedau cyflenwi realistig	Cyflenwir y "craidd" â chywirdeb	Cyflenwir y gwasanaeth gan staff brwdfrydig a chymwysedig
<b>Defnyddir tystiolaeth i ddysgu ac addasu, fel bo angen</b>	Monitrir canlyniadau fel mater o drefn	Monitrir ymgysylltu a chadw fel mater o drefn	Nodir cydrannau hyblyg a phroffir addasiadau	Learning is translated across the delivery organisation
<b>Mae hyder y bydd canlyniadau'n gwella</b>	Tystiolaeth o rywle arall bod canlyniadau wedi gwella	Gall y sefydliad cyflenwi gasglu, dadansoddi a chyfathrebu tystiolaeth yn effeithiol	Tystiolaeth o'r ardal ail-greu cyfredol	Tystiolaeth o effaith gadarnhaol ehangach
<b>Mae'r gwasanaeth yn gost-fuddiol a chynaliadwy</b>	Dadansoddiad o gostau ac enillion ariannol tebygol ar fuddsoddiad	Achos busnes cymhellol yn cefnogi ail-greu	Mae'r gwasanaeth wedi'i integreiddio'n llawn yn y busnes craidd	Mae'r strwthurau ariannol a sefydliadol yn ddigon cadarn i gefnogi ail-greu

Sylwer bod celloedd ag arlliw goleuach yn dangos graddau uchel o hyder a mae arlliwiau tywyllach o las yn dangos meysydd o ddatblygiad posibl.

Yn benodol, rydym yn disgrifio faint o'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgais oedd, ar gychwyn eu taith ail-greu, â:

- model rhesymeg cydlynol wedi'i gefnogi gan dystiolaeth;
- llawlyfrau neu lyfrau gweithredu i gefnogi ail-greu cyson;
- offer neu brosesau i fonitro cywirdeb neu gysondeb cyflenwi;
- amcangyfrifon o gostau uned a chychwyn;
- canlyniadau a fonitrir fel mater o drefn o fuddiolwyr arfaethedig; a
- tystiolaeth arbrofol o effaith ar ganlyniadau buddiolwyr arfaethedig

Yna rydym yn cymharu hyn â ble mae'r 25 prosiect nawr, tri chwarter o'r ffordd trwy'r rhaglen bum mlynedd. Bydd rhifynnau Cipolygon Rhaglen y dyfodol yn canolbwyntio ar elfennau mwy sefydliadol a chyd-destunol eraill o'r Fframwaith Tystiolaeth-Hyder.

Mae'r dadansoddiad yn Rhan 2 yn syml a disgrifiadol. Ar sawl cyfrif nid yw'r canlyniadau'n peri syndod o gofio'r buddsoddiad mewn coethi gwasanaethau a chynhyrchu tystiolaeth o fewn y rhaglen Gwireddu Uchelgais (rhybudd: mae'r mwyafrif o wasanaethau wedi'u diffinio a'u hail-greu'n fwy erbyn hyn). Yn Rhan 3 rydym yn gwneud archwiliad mwy myfyriol i'r hyn sy'n sylfaenol i'r canfyddiadau hyn.

### Dulliau ar gyfer dilyn y broses o goethi gwasanaethau

Rydym yn asesu cynnydd i fyny lefelau'r Safonau Tystiolaeth, a'r datblygiad o ddangosyddion penodol o goethi gwasanaethau a chynhyrchu tystiolaeth fel ei gilydd, trwy gymhwyso meini prawf llawn a chynhwysfawr Safonau Tystiolaeth Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington (DSRU). Gallwch weld y Safonau Tystiolaeth llawn yn: [investinginchildren.eu/evidence-standards](http://investinginchildren.eu/evidence-standards).

Ar gychwyn ac ar gam dewis prosiect y rhaglen Gwireddu Uchelgais fe wnaethom gymhwyso'r Safonau Tystiolaeth llawn i bob un o'r prosiectau hynny a oedd ar y rhestr hir i gymryd rhan yn y fenter. Fe wnaethom gymhwyso'r Safonau i bob un yn seiledig ar ddeunyddiau, adroddiadau gwerthuso a dogfennaeth a ddarparwyd. Gwnaed yr asesiadau hyn gan ymchwilyr a hyfforddwyd ynghylch cymhwyso'r Safonau yn Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington (ac fe'u croeswiriwyd).

Yn ystod hynt y rhaglen Gwireddu Uchelgais fe wnaethom ddatblygu hunan-asesiad prototeip ar-lein yn ôl y Safonau Tystiolaeth Roedd yn ofynnol i bob prosiect gwblhau a diweddarau hwn yn flynyddol, gan lanlwytho deunyddiau, prosesau a dogfennaeth newydd yn gysylltiedig â phob dangosydd ar y Safonau (megis modelau rhesymeg, llawlyfrau neu adroddiadau gwerthuso newydd). Fe wnaeth hyn, gyda gwybodaeth bellach a ddarparwyd gan brosiectau yn eu hadroddiadau chwarterol a blynyddol, ffurfio'r sylfaen allweddol ar gyfer ailgymhwyso'r Safonau Tystiolaeth gan ymchwilyr wedyn yn DSRU.




## Rhan 2: Canfyddiadau

### Crynodeb o ddatblygiad gwasanaeth

Yn gyntaf fe wnaethom edrych yn gyffredinol ar ba raddau mae'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgaisd, at ei gilydd, wedi datblygu yn ôl ein chwe dangosydd allweddol o ddatblygiad gwasanaeth. Crynhöir

hyn yn Ffigur 4, sy'n dilyn faint o'r 25 prosiect wedi diwallu pob un o'r dangosyddion hyn ar gychwyn y rhaglen, o gymharu â'r sefyllfa nawr (oddeutu tri chwarter y ffordd trwy'r rhaglen bum mlynedd).

Ffigur 4: Crynodeb cyffredinol o'r broses o goethi gwasanaeth a chynhyrchu tystiolaeth



### Cipolwg agosach ar ddangosyddion penodol

Mae ffigur 5 yn cyflwyno'r crynodeb ar gyfer pob dangosydd penodol (y llinellau o'r un lliw â Ffigur 4), wrth ochr dadansoddiad o'r prosiectau hynny inni eu diffinio ar gychwyn y rhaglen naill ai fel 'rhaglen seiliedig ar dystiolaeth' (11 o'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgais - y llinellau llwyd) neu 'ymyriad addawol' (yr 14 sy'n weddill - y llinellau glas). Mae'r blwch ar y dudalen ddilynol yn darparu enghraifft o ymyriad seiliedig ar dystiolaeth ac ymyriad addawol o fewn y rhaglen Gwireddu Uchelgais.

Rydym yn darparu'r dadansoddiad hwn oherwydd, yn siarad yn gyffredinol, fe wnaeth yr 11 rhaglen seiliedig ar dystiolaeth gychwyn Gwireddu Uchelgais â sylfaen dystiolaeth gref a chryn dipyn o goethni Adlewyrchir hyn gan y llinellau llwyd gwastad yn Ffigur 5: cyrhaeddwyd nenfwd gan eu bod wedi cychwyn y rhaglen â llawer o'r elfennau hyn yn eu lle. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud na chawsant eu coethi ymhellach dros hynt yr ail-greu ac addasu (gweler Rhan 3).

Mewn cyferbyniad â hyn, mae Ffigur 5 yn dangos mwy o ddatblygiad yn ôl y dangosyddion hyn ar gyfer yr ymyriadau addawol (y llinellau glas). Fe wnaeth llawer o brosiectau gychwyn y rhaglen Gwireddu Uchelgais â sylfaen yr elfennau hyn yn eu lle (er enghraifft, amlinelliad o fodel rhesymeg neu esgyrn llawlyfr gweithredu). Fodd bynnag, roedd y mwyafrif angen buddsoddiad sylweddol o amser ac egni i goethi'r rhain at y pwynt lle roeddent hwy (ac roedden ni) yn hyderus ynddynt - er enghraifft, trwy gryfhau a choethi model rhesymeg yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth flaenorol, neu drwy fod yn fwy penodol ynghylch arferion craidd ac addasadwy mewn llawlyfr neu lyfr hyfforddi. Fel oedd yn wir â'r rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth, roedd y mwyafrif o elfennau'n tueddu i gael eu coethi'n barhaus wrth i addasiadau gael eu gwneud dros hynt yr ail-greu.




## Ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ac addawol

Rydym yn diffinio **rhaglen seiliedig ar dystiolaeth** fel Pecyn ar wahân, trefnedig o arferion neu wasanaethau - yn aml gyda llyfrau gweithredu, hyfforddiant a chymorth technegol - sydd wedi'i brofi trwy broses o werthuso trwyadl arbrofol, yn cymharu canlyniadau'r rhai hynny sy'n derbyn y gwasanaeth â'r rhai hynny nad ydynt, ac a gafwyd yn effeithiol. Mae hyn yn perthyn i gyfwerth Lefel 5 ar y Safonau Tystiolaeth yn Ffigur 2. Un enghraifft o raglen seiliedig ar dystiolaeth o'r prosiectau Gwireddu Uchelgais yw Therapi Aml-systematig (MST). Mae MST yn fodel dwys seiliedig ar y teulu a'r gymuned sy'n canolbwyntio ar holl ecoleg y plentyn. Yn y rhaglen Gwireddu Uchelgais darparwyd y gwasanaeth hwn gan Extern yng Ngogledd Iwerddon. Mae MST wedi mynd trwy nifer o werthusiadau arbrofol yn yr UD a chafwyd ei fod yn effeithiol o ran lleihau lleoliadau oddi allan i'r cartref, yn cadw pobl ifanc yn yr ysgol, yn lleihau cam-ddefnydd o gyffuriau ac alcohol, ac yn gwella perthnasau teuluol.

Rydym yn diffinio **gwasanaeth addawol** fel gwasanaeth a ddiffinir yn dyn , â sylfaen o fodel rhesymeg cryf, sydd â rhywfaint o dystiolaeth ddangosol - er nad yn arbrofol - o effaith. Mae hyn yn perthyn i gyfwerth Lefel 2 ar y Safonau Tystiolaeth yn Ffigur 2. Un enghraifft o ymyriad addawol o'r prosiectau Gwireddu Uchelgais yw'r Fenter Gymunedol Senedd y Plant. Wedi'i gyflenwi gan Senedd y Plant, mae'r gwasanaeth hwn yn anelu at hyrwyddo hawliau dynol a pherthnasau rhag-gymdeithasol ymhlith plant sydd ar ymylon ymddygiad gwrthgymdeithasol neu blant sy'n ymwneud â gangiau. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys gweithdai a gwaith grŵp fel ei gilydd lle cefnogir plant i archwilio eu hawliau. Trwy'r rhaglen Gwireddu Uchelgais mae Senedd y Plant wedi'i chefnogi i dynhau a ffurfioli ei ymagwedd at fesur canlyniadau

Erbyn hyn mae gan bron pob un o'r prosiectau Gwireddu Uchelgais fodelau rhesymeg, llawlyfrau neu lyfrau gweithredu wedi'u datblygu'n rhesymol dda, ac amcangyfrifon o gostau cychwyn ac uned a maent yn monitro canlyniadau plant a phobl ifanc fel mater o drefn. Fodd bynnag, fel a drafodir yn Rhan 3, mae amrywiadau o ran faint mae'r rhain wedi'u coethi. Mae llawer o brosiectau'n dal i ddatblygu ymhellach eu modelau rhesymeg, llawlyfrau a gweithgareddau yng ngolau data newydd ar ganlyniadau a chostau, yn ogystal â chyfleoedd a heriau mewn ardaloedd ail-greu newydd.

Ffigur 5: Crynodeb cyffredinol o'r broses o goethi gwasanaeth a chynhyrchu tystiolaeth



Mae gan oddeutu pedwar o bob pump o'r prosiectau offer monitro cywirdeb yn eu lle **neu maent wedi'u datblygu**. Fodd bynnag, yr hyn rydym yn gwybod llai amdano ar hyn o bryd yw os a sut maent yn cael eu defnyddio i gefnogi cysondeb o ran cyflenwi gwasanaethau ac addasiadau (byddwn yn dychwelyd i hyn nes ymlaen yn y gyfres Gipolygon Rhaglen hon).

Mae'r rhaglen Gwireddu Uchelgais yn unigryw gan fod bron i hanner y prosiectau yn y portffolio, yn y gorffennol neu rywle arall, wedi'u gwerthuso'n llym ynghylch eu heffaith gan ddefnyddio **dulliau** arbrofol. Nid yw hyn yn arferol o gwbl: yn seiliedig ar ddadansoddiad o wariant mewn awdurdodau lleol gan DSRU, rydym yn amcangyfrif bod llai nag 1% o wasanaethau yn y DU wedi'u gwerthuso fel hyn. Cyfrifir am y cynnydd bach yn y nifer o brosiectau Gwireddu Uchelgais â thystiolaeth arbrofol gan y tri phrosiect hynny sy'n ymwneud ag RCT llawn neu beilot ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen Gwireddu Uchelgais. Mae'r rhain yn dal wrthi. Mewn rhifynnau dilynol o Gipolygon Rhaglen byddwn yn trafod rôl RCTs mewn **ail-greu** ac **arloesi**, beth rydym ni a sefydliadau sy'n gysylltiedig wedi'i ddysgu trwy ymgymryd â threialon mewn sefyllfa 'fyd go iawn' nad yw'n glinigol, yn ogystal â chanlyniadau'r treialon pan fyddant ar gael.

## **Pam mae hynny'n bwysig? A yw prosiectau a buddiolwyr yn well eu byd?**

Os archwilir y dangosyddion hyn o goethi gwasanaeth a thystiolaeth awgrymir bod prosiectau wedi'u coethi'n fwy dros hynt a buddsoddiad y rhaglen Gwireddu Uchelgais. A yw hyn yn golygu bod y gwasanaethau wedi gwella eu gallu i ail-greu ac i ledaenu eu harferion i ardaloedd newydd? Ni allwn fod yn sicr - mae nifer o ffactorau allanol hefyd yn effeithio ar allu sefydliad i ailgreu'n effeithiol ac i wella canlyniadau. Fodd bynnag, yr hyn gallwn ei ddweud yw, erbyn diwedd 2015 a fel rhan o'r rhaglen Gwireddu Uchelgais, mae mwy na 142,000 o blant a phobl ifanc wedi derbyn gwasanaeth gan un o'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgais (sy'n fwy na'r 134,000 a gynlluniwyd). Hefyd gallwn ddweud bod llawer o brosiectau'n priodoli'r llwyddiant hwn i goethi eu gwasanaethau, tystiolaeth, strwythurau a phrosesau (gweler Blwch 3 a'r corff datblygol o astudiaethau achos prosiect unigol wrth i brosiectau adael y rhaglen).

A yw coethi gwasanaethau a chynhyrchu tystiolaeth yn golygu bod y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella? Bydd y rhifyn nesaf o'r gyfres Gipolygon Rhaglen hon yn adrodd am ddata rhagarweiniol ar ganlyniadau o'r rhaglen. Hefyd mae'r astudiaethau achos a ryddhawyd hyd yn hyn yn cynnwys rhywfaint o ddata canlyniadau sy'n benodol i brosiectau. Yn gryno, ar y cyfan mae'r canfyddiadau'n dangos canlyniadau sefydlog neu well (ond fel gellid ei ddisgwyl, nid o reidrwydd ar gyfer pob un). Fodd bynnag, o gofio absenoldeb grŵp cymharu neu **reoli** ar gyfer y mwyafrif o brosiectau, mae'n anodd datgan a yw'r gwasanaethau eu hunain yn gyrifol am welliannau mewn canlyniadau - mae'n bosibl y byddai newidiadau wedi digwydd beth bynnag. Felly mae'n mynd yn anos byth i ddatgan a yw coethi gwasanaethau a chynhyrchu tystiolaeth wedi cyfrannu i welliannau mewn canlyniadau.

Wedi dweud hynny, mae llawer o brosiectau'n datgan yn eu hastudiaethau achos bod datblygu a choethi gwasanaethau wedi'u cefnogi i gyfathrebu'n well â chyllidwyr a chomisiynwyr ynghylch yr hyn mae eu gwasanaeth yn ei wneud ac i ddarparu mwy o hyder ynghylch yr effaith bosibl mae'n ei chael. Gweler y blwch ar y dudalen ddilynol i weld rhai enghreifftiau.

## Gwerth ychwanegol: yr hyn mae rhai prosiectau'n ei ddweud

**Malachi:** "Mae'r datblygiad o fodel rhesymeg cadarn â thystiolaeth dda wedi trawsnewid pob agwedd ar ein proses o gyflenwi gwasanaeth yn Malachi o'n prosesau recriwtio a hyfforddi i'n systemau monitro ac adrodd. Mae'r model rhesymeg yn darparu ffocws a fframwaith rydym yn datblygu ein holl systemau yn ei gylch erbyn hyn ac fe'i arddangosir trwy gydol ein sefydliad a chyfeirir ato'n gyson ar gyfer meincnod gwerthuso mewnol."

- **Laura Evans, Prif Swyddog Gweithredol Malachi**

**Ymddiriedolaeth Ariel:** "Cymerodd 3 blynedd i ymgysylltu â 100 o ysgolion yn defnyddio ein hadnodd gwrth-drais 'Face Up'. Roedd hynny'n gynnydd da ar gyfer sefydliad bach ond fe wnaeth y gwaith a wnaed gennym fel rhan o Wireddu Uchelgais drawsnewid ein gallu i weithio ag ysgolion.

Lansiwyd ein hadnodd gwrth-drais diweddaraf 'CyberSense' yn y gwanwyn yn 2015 ac fe wnaeth ein galluogi i ymgysylltu â 100 o ysgolion o fewn 3 mis. Cafodd effeithiolrwydd yr ymyriad hwn ei wella'n drawiadol trwy waith ar goethi'r model rhesymeg, datblygu llawlyfrau defnyddwyr ac ymgysylltu â thystiolaeth bresennol o rywle arall.

Yn y cam datblygu nesaf gwelir y cyflwyniad o drydedd cenhedlaeth o adnoddau addysgol gwrth-drais ar gyfer ysgolion. Mae'r adnoddau newydd hyn wedi dechrau denu sylw noddwyr masnachol, er ei fod yn gynnwys rydym wedi canfod bod gan noddwyr posibl ddiddordeb i gysylltu eu brand â chynhyrchion a ddefnyddir yn eang mewn ysgolion ledled y DU."

- **Paul Ainsworth, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Ariel**

## Rhan 3: Myfyrdod mwy cynnil ar y canfyddiadau

Yn y rhan derfynol hon rydym yn cymryd myfyrdod mwy cynnil ar y canfyddiadau.

### Nid yw'n digwydd dros nos

Nid yw'r lefel hon o goethi gwasanaethau a chynhyrchu tystiolaeth wedi digwydd dros nos. Ar gychwyn y rhaglen Gwireddu Uchelgais roeddem o'r farn y gallem ni, y consortiwm, ddarparu cymorth dwys i gynorthwyo'r prosesau coethi gwasanaethau a datblygu sefydliadol yn ystod 12 i 18 mis cyntaf y fenter, ac yna byddai'n gwairh wedi'i wneud. Fe wnaethom ragweld y byddai prosiectau wedyn yn ceisio cymryd eu hymagweddau oedd wedi'u coethi a'u hail-greu ymhellach tra'n cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd pellach. Roeddem yn anghywir. Yn lle, rydym wedi darparu dwysterau amrywiadwy o gymorth dros gyfnod llawer hwy o amser - mewn rhai achosion mae'n dal i fynd bron i bedair blynedd yn ddiweddarach. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd cyfnod sefydlu dwys ar gyfer llawer o brosiectau mewn ardaloedd ail-greu daearyddol newydd. Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys amrywiaeth o alwadau oedd yn cystadlu, megis cyflogi staff newydd, partneriaid cyflenwi, llwybrau atgyfeirio a buddiolwyr yn ogystal â gofynion adrodd. Roedd hyn yn golygu mai ond ychydig o amser y gellid ei roi i goethi gwasanaeth. Wrth i'r cyfnod sefydlu dwys dawelu roedd prosiectau'n gallu canolbwyntio ar goethi, addasu a phrofi tra'n cydbwyso hefyd flaenoriaethau oedd yn cystadlu sef cynnal y broses o gyflenwi a diwallu rhwymedigaethau contractiol ac adrodd.

### Mae angen buddsoddiad i wella gwasanaethau

Mae'r broses o goethi ac addasu 25 prosiect wedi galw am fuddsoddiad sylweddol. Darparwyd y buddsoddiad hwn gan Y Gronfa Loteri Fawr o ran darparu adnoddau i'r consortiwm er mwyn darparu cymorth, ac yn allweddol gan bob un o'r 25 prosiect Gwireddu Uchelgais hefyd. Mae pob sefydliad cyflenwi wedi buddsoddi amser, ymdrech ac adnoddau sylweddol i goethi eu gwaith tra'n diwallu disgwyliadau ynghylch cyflenwi. Mae'r rhaglen Gwireddu Uchelgais wedi arddangos yr hyn y gellir ei gyflawni, ond mae'r buddsoddiad yn gymharol unigryw: nid yw'r fath adnoddau ac amser ar gael fel arfer mewn trefniad ar gyfer rhoi grantiau neu gomisiynu.

### Amrywioldeb ac ansawdd

Mae cryn dipyn o amrywio o ran ansawdd yr offer, prosesau a thystiolaeth sydd o dan bob dangosydd a aseswyd gennym. Nid yw'r siartiau yn Ffigurau 4 a 5 yn datgelu'r amrywio hwn. Er enghraifft, erbyn hyn mae modelau rhesymeg yn gymharol gyffredin mewn gwasanaethau plant ac arloesi cymdeithasol. Ond mae'r ansawdd yn amrywio'n fawr. Mae rhai nad ydynt yn rhesymegol iawn mewn gwirionedd, mae rhai eraill yn rhesymegol ond heb unrhyw gadarnhad na manylion, a mae llai yn rhesymegol, penodol ac â sylfaen o dystiolaeth fel ei gilydd. Ond gall fod yn anodd barnu'r amrywio hwn mewn ansawdd. Cynllunir y datblygiad o'r [Fframwaith Tystiolaeth-Hyder](#), yn rhannol, i helpu sefydliadau i wneud rhai barnau ynghylch cryfder ac ansawdd dangosyddion coethi gwasanaethau a hefyd yr hyn y gellid ei wneud i'w coethi ymhellach yng nghyd-destun ail-greu. Gallwch ddarllen rhagor ynghylch y Fframwaith Tystiolaeth-Hyder a dangosyddion cysylltiedig ar y tudalennau gwe Gwireddu Uchelgais, yn ogystal ag ystyried cryfderau penodol i brosiectau a meysydd ar gyfer coethi pellach yn ein cyfres o asudiaethau achos.

### Myfyrio parhaus

Ni ddylai'r prosesau coethi gwasanaeth a chynhyrchu tystiolaeth ddod i ben wrth ail-greu. Mae'r graffau yn Ffigurau 4 a 5 yn awgrymu bod llawer o brosiectau wedi datblygu model rhesymeg, llawlyfr neu broses ar gyfer monitro canlyniadau fel mater o drefn erbyn hyn, a bod y dasg wedi'i chwblhau nawr. Ond y realiti yw bod y broses ail-greu'n galw am fyfyrion, coethi ac addasu parhaus. Efallai bydd angen y myfyrio hwn mewn ymateb i ddatblygiadau mewn un maes yn effeithio ar un arall (megis data ar ganlyniadau'n cwestiynu'r cysylltiadau mewn model rhesymeg), a mewn ymateb i heriau a chyfleoedd mewn meysydd ail-greu a chyd-destunau newydd (megis anawsterau ynghylch ymgysylltu â neu gadw pobl ifanc mewn gwasanaeth).

Er enghraifft, yn wreiddiol roedd un o'r prosiectau Gwireddu Uchelgais - Ymddiriedolaeth Ariel - wedi seilio eu gwaith ar athrawon ysgol yn defnyddio adnoddau digidol rhyngweithiol o fewn ystafelloedd dosbarth. Cynlluniwyd yr adnoddau hyn i hyrwyddo newid mewn agweddau ac ymddygiadau'n perthyn i gamdefnyddio alcohol, seiberfwlio a rheoli perthnasau. Seiliwyd model rhesymeg o gwmpas hyn. Fodd bynnag, roedd data rhagarweiniol ar

ganlyniadau, adborth gan bobl ifanc ac athrawon, ac archwiliad o'r llenyddiaeth yn awgrymu bod angen atgyfnerthu'r negeseuon hyn trwy ymagwedd ysgol-gyfan er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn agweddau'n droi'n newidiadau mewn ymddygiad. Fe wnaeth hyn arwain at rai agweddau allweddol ar y model rhesymeg yn cael eu coethi a deunyddiau ac adnoddau newydd yn cael eu cynhyrchu.

### **Proses annilyniannol**

Mae'n dilyn bod y broses o goethi gwasanaeth a chynhyrchu tystiolaeth yn annilyniannol ar y cyfan. Er bod rhai sylfeini sy'n bwysig (megis model rhesymeg a all ganolbwyntio'r dewis o offer i fonitro canlyniadau), nid yw'r drefn ddilynol o ddatblygu a choethi'n sefydlog. Gall llawer o'r dangosyddion yn y [Fframwaith Tystiolaeth-Hyder](#) gael eu hystyried neu eu hailystyried ar nifer o bwyntiau yn y broses ail-greu. Bydd y broses o wneud coethderau'n cael ei dylanwadu gan flaenoriaethau sefydliadol cyfredol a heriau lleol ynghylch ail-greu.

### **Ei roi ar waith**

Nid yw'r ffaith bod rhywbeth yn ei le'n golygu y caiff ei ddefnyddio. Mae perygl bod cynhyrchu lawlyfrau neu gynhyrchu data ar ganlyniadau'n mynd yn ddiben ynddo ac ohono ei hunan, yn hytrach na chyfrwng i ddiben. Gall sefydliadau fuddsoddi llawer o amser ac ymdrech yn y gwaith o ddatblygu'r pethau hyn ond mewn ymarfer efallai na fyddant yn eu defnyddio. Er enghraifft, er bod llawer o brosiectau Gwireddu Uchelgais wedi datblygu ac yn defnyddio [offer monitro cywirdeb](#) yn weithredol er mwyn helpu i sicrhau proses gyson o gyflenwi, mae llawer hefyd wedi eu datblygu ond heb eu defnyddio wedyn. Dylid cymryd gofal i ddim ond datblygu tystiolaeth, offer a phrosesau a ddefnyddir wedyn er mwyn hysbysu arferion, canlyniadau buddiol a chefnogi ail-greu a graddfa ehangach.

### **Taith, nid cyrchfan**

Mae'r dysg a geir o ail-greu'n dod o'r broses o ddatblygu offer, gweithdrefnau a thystiolaeth ac nid o reidwydd o gynhyrchion terfynol yr offer hyn (megis llawlyfr neu adroddiad ar ganlyniadau). Er enghraifft, fe wnaeth prosiect Gwireddu Uchelgais arall - Malachi - ganfod bod y broses o ddatblygu model rhesymeg oedd yn cynnwys ethos a ffordd o weithio eu sefydliad yn offeryn nerthol ynghylch recriwtio a hyfforddi staff (gweler Blwch 3). Fe wnaeth Chance UK ganfod bod ysgrifennu adrannau ar angen a galw ar gyfer eu llawlyfr gweithredu'n eu helpu i ailystyried a choethi eu hymagwedd at arferion atgyfeirio ac ymgysylltu â theuluoedd. Fe wnaeth hwn, yn ei dro, helpu i hybu eu niferoedd ymgysylltu a chyflenwi.

Yn gryno, dros y tair blynedd a hanner diwethaf mae'r mwyafrif mawr o'r 25 prosiect o fewn y portffolio Gwireddu Uchelgais wedi gwella'n amlwg yn ôl nifer o ddangosyddion pwysig o goethi gwasanaethau a chynhyrchu tystiolaeth. Eto, nid cynnydd yn ôl y dangosyddion hyn fel y cyfryw sy'n cynrychioli'r cyflawniad gwirioneddol yn y rhaglen hon. Yn hytrach, y camau ymlaen yn ogystal â thuag yn ôl, a'r dysg o'r broses ailadroddol hon o goethi sy'n cynrychioli cyflawniad gwirioneddol y rhaglen.

## Pwyntiau Dysgu Allweddol

- **Mae mwyafrif y prosiectau wedi'u diffinio'n dynach ac yn rhwyddach eu hail-greu erbyn hyn**

Erbyn hyn mae gan bron pob un fodolau rhesymeg cryf, llawlyfrau gweithredu a chyfrifiad realistig o gostau cychwyn ac uned.

- **Mae mwyafrif y prosiectau wedi cryfhau'r dystiolaeth sy'n sylfaenol i'w gwasanaethau**

Erbyn hyn mae bron pob un yn monitro canlyniadau buddiolwyr fel mater o drefn ac mae tri'n mynd trwy werthusiad arbrol o effaith ar hyn o bryd (yn ychwanegol i'r un ar ddeg mae hyn yn sylfaenol iddynt eisoes).

- **Mae coethi, addasu a phrofi gwasanaeth yn galw am amser**

Mae galwadau sydd ynghlwm wrth ymgorffori gwasanaeth mewn ardal newydd a diwallu galwadau contractiol sydd ynghlwm wrth gyflenwi gwasanaeth yn cystadlu ag amser ac adnoddau i wneud addasiadau a choethderau cynllunedig. Cymerodd o leiaf dwy flynedd i fwyafrif y prosiectau ganolbwyntio'n wirioneddol ar addasu a phrofi cynllunedig.

- **Mae coethi, addasu a phrofi gwasanaeth yn galw am fuddsoddiad**

Cymerodd gryn dipyn o fuddsoddiad o ran amser ac adnoddau gan y sefydliadau cyflenwi gwasanaethau eu hunain a'r consortiwm yn darparu cymorth i alluogi gwasanaeth i gael ei goethi a'i addasu mewn ffordd gynllunedig.

- **Gall ansawdd offer, prosesau a thystiolaeth i gefnogi ail-greu amrywio'n fawr**

Nid yw'r ffaith bod modelau rhesymeg, offer monitro cywirdeb na gwerthusiad o effaith yn eu lle o reidrwydd yn golygu eu bod yn gryf nag eu bod yn cael eu defnyddio.

- **Mae'r Safonau Tystiolaeth yn offeryn heb awch i gefnogi coethi, addasu a phrofi gwasanaeth**

Er eu bod yn werthfawr ar gyfer adeiladu ein gwybodaeth wyddonol o'r 'hyn sy'n gweithio' er mwyn gwella canlyniadau nis cynllunir i gefnogi addasu a phrofi ailadroddol.

- **Mae ail-greu'n galw am fyfyrion ac ailymweld parhaus â sylfeini tystiolaethol cynharach**

Gall cyflenwi mewn cyd-destunau newydd ac argaeledd tystiolaeth newydd ei chynhyrchu herio rhai agweddau ar fodel ar gyfer cyflenwi gwasanaeth, sydd yn ei dro'n ysgogi addasu a phrofi pellach.

- **Mae'r Fframwaith Tystiolaeth-Hyder yn darparu myfyrdod cynnil ar feysydd cryfder a choethi posibl i sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau**

Er bod arno angen datblygu pellach ei hunan, gall y Fframwaith Tystiolaeth-Hyder fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer sefydliadau eraill sy'n ail-greu gwasanaethau mewn ardaloedd newydd.

- **Mae ail-greu'n daith, nid cyrchfan**

Mae'r dysg a geir o'r broses ail-greu'n tarddu o'r broses o ddatblygu offer, gweithdrefnau a thystiolaeth, nid o reidrwydd o gynhyrchion terfynol yr offer hyn.



## Rhestr o Dermau

### ■ Arferion addasadwy

Yr agweddau hynny ar wasanaeth y gellir eu haddasu heb beryglu ei gydrannau craidd. Gall cydrannau addasadwy alluogi ymarferwyr i addasu gwasanaeth i gydweddu â gofynion unigryw'r cyd-destun lleol a buddiolwyr yr ail-greu.

### ■ Grŵp rheoli / Grŵp cymharu

Grŵp o gyfranogwyr o fewn gwerthusiad arbrofol nad ydynt yn derbyn y rhaglen neu wasanaeth sy'n cael ei werthuso, er mwyn mesur y canlyniadau a fyddai wedi digwydd heb bresenoldeb y rhaglen.

### ■ Cydrannau / gweithgareddau craidd

Y gweithgareddau allweddol sy'n gwneud i wasanaeth weithio. I'w fynegi mewn ffordd arall, agweddau neu fecanweithiau penodol gwasanaeth sy'n arwain at y newid a ddymunir o ran canlyniadau. Er mwyn i wasanaeth gael ei ail-greu'n llwyddiannus, mae angen i ddarparwyr fod yn glir ynghylch yr hyn y gellir a na ellir ei newid.

### ■ Rhaglen seiliedig ar dystiolaeth

Pecyn ar wahân, trefnedig o arferion neu wasanaethau - yn aml gyda llyfrau gweithredu, hyfforddiant neu gymorth technegol - sydd wedi'i brofi trwy broses o werthuso trwyadl arbrofol, yn cymharu canlyniadau'r rhai hynny sy'n derbyn y gwasanaeth â'r rhai hynny nad ydynt, ac a gafwyd yn effeithiol, h.y. mae'n cael effaith glir gadarnhaol ar ganlyniadau plant. Yn y Safonau Tystiolaeth a ddatblygwyd gan Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington, a ddefnyddir gan Brosiect Oracle, NESTA ac eraill, mae hyn yn perthyn i 'o leiaf Lefel 3' ar y Safonau.

### ■ Y Fframwaith Tystiolaeth-Hyder

Mae 'Fframwaith Tystiolaeth-Hyder' Gwireddu Uchelgais y gellir ei ddefnyddio i helpu i farnu cryfder a chydbwysedd cyffredinol gwahanol fathau o dystiolaeth ar gyfer gwasanaeth arbennig sy'n cael ei ail-greu, ac i nodi meysydd ar gyfer datblygu a chyfle. Fe'i strwythurir o gwmpas diffiniad pum-rhan o ail-greu llwyddiannus: (i) gwasanaeth a ddiffinir yn dyn; (ii) a gyflenwir yn effeithiol ac yn ffyddlon i'r rhai hynny sydd ei angen; (iii) defnyddir tystiolaeth i ddysgu ac addasu, fel bo angen; (iv) mae tystiolaeth bod canlyniadau wedi gwella; a (v) mae'r gwasanaeth yn gost-fuddiol a chynaliadwy. Defnyddir system seml â phum pwynt ac â lliwiau i raddoli cryfder ac ansawdd pob math o dystiolaeth: mae'r glas goleuaf yn cynrychioli'r dystiolaeth grefaf ac mae'r glas tywyllaf yn cynrychioli'r gwanaf.

### ■ Gwerthusiad arbrofol / Tystiolaeth gadarn o effaith

Gwerthusiad sy'n cymharu canlyniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth â chanlyniadau plant a phobl ifanc nad ydynt yn eu derbyn. Gellir nodi'r grŵp rheoli trwy ddyrannu ar hap blant a phobl ifanc sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer y grŵp targed - hap-dreial wedi'i reoli neu RCT -, neu drwy nodi grŵp cymaradwy o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth tebyg - cynllun lled-arbrofol neu QED.



## Rhestr o Dermau

### ■ **Cywirdeb / Cyflewni'n ffyddlon**

Ffyddlondeb i gynllun gwreiddiol a chydannau craidd gwasanaeth. Gellir asesu hyn trwy offerynnau monitro cywirdeb, rhestrau gwirio neu arsylwadau.

### ■ **Offer monitro cywirdeb**

Fel arfer, mae'r rhain yn rhestrau gwirio neu sylwadau sy'n galluogi ymarferwyr, rheolwyr rhaglen, neu ymchwilyr i fonitro a yw rhaglen yn cael ei chyflenwi'n gywir neu beidio, yn ôl ei chynllun gwreiddiol.

### ■ **Effaith**

Effaith (gadarnhaol neu negyddol) rhaglen neu wasanaeth ar ganlyniadau perthnasol (yn ddelfrydol yn ôl un neu ragor o werthusiadau cadarn ar effaith).

### ■ **Llawlyfr gweithredu**

Dogfen sy'n disgrifio'r prosesau a chytundebau ar gyfer ail-greu ymyriad mewn cyd-destun newydd. Fel arfer byddai'n cynnwys gwybodaeth ar strwythur a chynnwys y rhaglen, ei chanlyniadau arfaethedig a'r adnoddau sydd eu hangen i'w chyflenwi.

### ■ **Arloesi**

Y broses o droi syniad da'n wasanaeth sy'n creu gwerth ar gyfer y buddiolwyr arfaethedig ac y gellir ei ariannu neu ei gomisiynu.

### ■ **Model rhesymeg**

Darlun sydd fel arfer yn graffig o'r cysylltiadau rhesymegol rhwng adnoddau, gweithgareddau, allbynu, a chanlyniadau gwasanaeth. Yn ddelfrydol bydd gan y cysylltiadau hyn rywfaint o ymchwil yn sylfaen iddynt. Mae rhai modelau rhesymeg hefyd yn cynnwys rhagdybiaethau ynghylch y ffordd y bydd y gwasanaeth yn gweithio.

### ■ **Llawlyfr**

Dogfen sy'n cwmpasu'r holl bethau ynghylch rhaglen neu wasanaeth sy'n berthnasol ble bynnag a phryd bynnag mae'n cael ei weithredu. Mae hyn yn cynnwys y gronfa ymchwil ar gyfer y rhaglen, y canlyniadau a ddymunir, y cysylltiad rhesymegol rhwng gweithgareddau a'r canlyniadau hyn, y grŵp targed a'r holl hyfforddiant neu ddeunyddiau cyflenwi perthnasol (gweler hefyd 'Llawlyfr Gweithredu').

### ■ **Canlyniadau**

Mae canlyniadau'n cyfeirio at yr 'effaith' neu newid a achosir, megis newid o ran ymddygiad neu iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Yng Ngwireddu Uchelgais mae'r holl wasanaethau'n ceisio gwella canlyniadau sy'n gysylltiedig â llai o debygolrwydd o ymgysylltu â'r system gyfiawnde troseddol.

### ■ **Offer monitro canlyniadau**

O fewn cyd-destun gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd, fel arfer mae'r rhain yn holiaduron, cyfweliadau strwythuredig, neu sylwadau a wneir gan bobl ifanc neu eu rhieni, ymarferwyr neu ymchwilyr ar ystod o ddangosyddion o les emosiynol a chorfforol a datblygiad.

## Rhestr o Dermau

### ■ Gwasanaeth/ymyriad addawol

Gwasanaeth addawol fel gwasanaeth a ddiffinir yn dyn, â sylfaen o fodel rhesymeg cryf, sydd â rhywfaint o dystiolaeth ddangosol - er nad yn arbrofol - o effaith. Yn y Safonau Tystiolaeth a ddatblygwyd gan Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington, a ddefnyddir gan Brosiect Oracle, NESTA ac eraill, mae hyn yn perthyn i 'Lefel 2' ar y Safonau.

### ■ Ail-greu

Cyflenwi gwasanaeth i ardaloedd daearyddol newydd neu i gynulleidfaoedd newydd neu wahanol. Mae ail-greu'n wahanol i chwyddo gan fod ail-greu'n un ffordd yn unig o gwmpasu'n 'llydan' - h.y. cyrraedd nifer fwy o fuddiolwyr mewn lleoedd newydd. (Gweler y diffiniad o 'gwmpasu').

### ■ Safonau Tystiolaeth

Mae'r Safonau Tystiolaeth yn set o feini prawf y gellir barnu pa mor dyn y diffinir gwasanaeth arbennig a pha mor barod i'w ail-greu neu ei weithredu mae gwasanaeth arbennig yn eu hôl. Hefyd maent yn asesu cryfder ac ansawdd unrhyw dystiolaeth arbrofol sy'n sylfaenol i wasanaeth. Mae'r safonau'n ffurfio sylfaen y porth 'yr hyn sy'n gweithio' Buddsoddi mewn Plant ar gyfer comisiynwyr sy'n darparu cronfa ddata o wasanaethau profedig ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau plant. Hefyd mae'r Safonau wedi bod yn sylfaen i nifer o rai eraill, gan gynnwys y Project Oracle a Safonau Tystiolaeth NESTA.

### ■ Costau cychwyn

Cost lawn sefydlu prosiect, rhaglen neu wasanaeth mewn ardal newydd. Fel arfer mae costau cychwyn yn cynnwys costau cyfalaf megis cyfarpar TG, costau cynllunio a hyfforddi, ymgynghori, recriwtio, costau trwyddedu a chyfreithiol.

### ■ Gwasanaeth a ddiffinir yn dyn

Mae ymyriadau llwyddiannus yn glir ynghylch beth ydynt, beth maent yn anelu at ei gyflawni a gyda phwy, a sut maent yn anelu at ei wneud. Mae gwasanaeth a ddiffinir yn dyn yn un sydd â ffocws, sy'n ymarferol a rhesymegol.

### ■ Costau uned

Cost popeth sydd ei angen i gyflenwi rhaglen i gyfranogwr neu deulu. Fel arfer mynegir cost uned fel cost gyfartalog ar gyfer pob plentyn neu deulu, ond hefyd gellir ei mynegi fel ystod (er enghraifft, costau uned yn amrywio rhwng achosion "angen uchel" i "angen isel")

Gellir gweld geirfa ehangach o dermau allweddol sy'n gysylltiedig â Gwireddu Uchelgais ar y wefan Gwireddu Uchelgais: [catch-22.org.uk/realising-ambition](http://catch-22.org.uk/realising-ambition). Bydd hyn yn cynyddu wrth i'r gyfres o Gipolygon Rhaglen ddatblygu.

## Darllen Pellach

Rydym wedi tynnu ar lawer o ffynonellau wrth gynhyrchu'r Cypolwg Rhaglen hwn. Rhestrir ein prif ddewisiadau ar gyfer darllen pellach ar y themâu a drafodir isod.

- Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington. (2013). Safon Dystiolaeth 'Yr Hyn sy'n Gweithio' Buddsoddi mewn Plant. Dartington: DSRU. Gweler: <http://investinginchildren.eu/standards-evidence>
- Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington. (2013). Cynllunio a Choethi: Datblygu ymyriadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Dartington, Lloegr.
- Fixsen, D., et al. (2005). Ymchwil Gyflawni: Cyfuniad o'r Llenyddiaeth. Tampa, UDA: The National Implementation Research Network (FMHI Publication #231)
- Gloster, R., Aston, J., a Foley, B. (2014). Gwerthusiad o Project Oracle. Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth a NESTA
- Gottfredson, D., Cook, T., Gardner, F, Gorman-Smith, D., Howe, G., Sandler, I. a Zafft, K. (2015). Safonau Tystiolaeth ar gyfer effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, ac ymchwil uwchraddio yng ngwyddor atal: Y genhedlaeth nesaf Gwyddor Atal, tt.1-34.
- Nutley, S., Powell, A., a Davies, H. (2013). Beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth dda? Papur procio ar gyfer yr Alliance for Useful Evidence Llundain, Lloegr.
- Petticrew, M. a Roberts, H. (2003) Evidence, hierarchies, and typologies: horses for courses. Journal of Epidemiology and Community health. 57: 527–529.
- Puttick, R., a Ludlow, J. (2012). Safonau Tystiolaeth ar gyfer Buddsoddi Effaith. Llundain: NESTA

Gallwch weld rhestr lawn o adnoddau ychwanegol rydym wedi'u defnyddio ar y wefan Gwireddu Uchelgais: [catch-22.org.uk/realising-ambition](http://catch-22.org.uk/realising-ambition). Bydd hon yn tyfu wrth i'r gyfres o Gipolygon Rhaglen ddatblygu.

## Dysgu rhagor

**catch  
22**

---

[realisingambition@catch-22.org.uk](mailto:realisingambition@catch-22.org.uk)  
[catch-22.org.uk/realising-ambition](http://catch-22.org.uk/realising-ambition)

**substance.**

---

[neil.watson@substance.net](mailto:neil.watson@substance.net)  
[substance.net/case-studies/realisingambition](http://substance.net/case-studies/realisingambition)



**DARTINGTON**  
SOCIAL  
RESEARCH  
UNIT

---

[thobbs@dartington.org.uk](mailto:thobbs@dartington.org.uk)  
[dartington.org.uk](http://dartington.org.uk)

**THE  
YOUNG  
FOUNDATION**

---

[shaun.whelan@youngfoundation.org](mailto:shaun.whelan@youngfoundation.org)  
[youngfoundation.org](http://youngfoundation.org)

